Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Ystadau – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 109A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan dîm a oedd yn cynnwys Fflur Jones a Sara Utley.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella'r modd y mae'n rheoli ei ystad, ond mae'n ei chael yn anodd dyrannu digon o adnoddau ar gyfer yr ystad ac nid oes ganddo strategaeth gyffredinol i fynd i'r afael â meysydd uchel eu risg.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella'r modd y mae'n rheoli ei ystad, ond mae'n ei chael yn anodd dyrannu digon o adnoddau ar gyfer yr ystad ac nid oes ganddo strategaeth gyffredinol i fynd i'r afael â meysydd uchel eu risg 8

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chael yn anodd dyrannu digon o adnoddau i gynnal ei ystad, mae ei berfformiad o ran safonau Cymru wedi dirywio, ac nid yw'r gwaith mewnol i fonitro perfformiad wedi datblygu'n ddigonol 14

Atodiadau

Atodiad 1 – perfformiad dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 24

Atodiad 2 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion 29

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru (GIG Cymru) yn bodoli i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae adeiladau a seilwaith yn adnoddau gwerthfawr sy'n gallu effeithio'n uniongyrchol ar berfformiad y gwasanaeth iechyd. Mae'n rhaid iddynt fod yn briodol o ran math, cyflwr a lleoliad, ond gallant fod yn ddrud i'w rhedeg a'u cynnal.

2 Fel arfer mae gan fyrddau iechyd Cymru ystadau amrywiol sy'n cynnwys amrywiaeth o adeiladau sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ac sy'n amrywio o ran oedran ac ansawdd. Ar hyn o bryd, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) bortffolio ystadau gwerth £421 miliwn. Mae bron i 60 y cant o'r ystad dros 30 oed.

3 I reoli eu hystadau'n llwyddiannus, mae'n rhaid wrth fewnbwn ac ymdrech gan y byrddau iechyd, ac mae'n rhaid iddynt ymgymryd â dau weithgaredd bras:

- rheoli'r ystad yn strategol - mae hyn yn bwysig er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn ynglŷn â'r modd y mae'r ystad yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd a'r modd y bydd yn datblygu yn y dyfodol. Gyda chefnogaeth gweithwyr proffesiynol perthnasol, dylai'r Bwrdd benderfynu pa ystad sydd ei hangen arno i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, cymeradwyo cynlluniau perthnasol, a goruchwylio'r gwaith. Bydd Cynllun Gweithredu Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn ddylanwad pwysig ar ansawdd y gwaith rheoli strategol. Os na chaiff yr ystad ei rheoli'n strategol, mae perygl na fydd penderfyniadau ynghylch rheoli'r ystad a datblygu gwasanaethau yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae hyn yn creu risg ychwanegol o gamgyfeirio'r buddsoddiad ariannol yn yr ystad.
- rheoli'r ystad yn weithredol - mae hyn yn bwysig i sicrhau bod yr ystad yn parhau i fod yn addas i'w defnyddio o ddydd i ddydd, a bod gweithwyr proffesiynol yn gallu caffael, addasu, a gwerthu rhannau o'r ystad yn ôl yr angen.

4 O reoli'r ystad yn effeithiol ac yn effeithlon, dylai sicrhau gwerth am arian. Fodd bynnag, o beidio â rhoi digon o sylw i faterion strategol neu faterion gweithredol, gall arwain at wastraffu arian ac weithiau at ddarparu gwasanaeth is na'r safon i ddefnyddwyr.

5 Yn y Bwrdd Iechyd, yr Is-adran Ystadau a Chyfleusterau (yr is-adran) sy'n gyfrifol am reoli'r ystad. Sefydlwyd yr is-adran yn 2015 ar ôl ailstrwythuro. Yn 2016-17, roedd gan yr is-adran 226 aelod staff cyfwerth am amser llawn a oedd yn gweithio mewn timau gweithredol lleol ym mhob un o'r ysbytai acíwt. Mae'r is-adran yn dwyn ynghyd y cyfrifoldebau dros:

- ystadau gweithredol – gan gynnwys cynnal a chadw'r ystad a'r tir, asbestos, rheoli ynni a'r ystad;
- rheoli cyfleusterau – gwasanaethau arlwyo, domestig, porthorion a golchi dillad, a rheoli deunyddiau;

- iechyd a diogelwch corfforaethol – gan gynnwys diogelwch tân a diogelwch.[1]

6 Yn 2016-17, gwariodd y Bwrdd Iechyd oddeutu £46.9 miliwn ar reoli ei ystad a'i gyfleusterau, sef tua 3.6 y cant o'i wariant blynyddol.

7 Ymchwiliad blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol i drefniadau cyrff y GIG i gefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yw Asesiad Strwythuredig. Mae'r gwaith ar asesiadau strwythuredig blaenorol wedi tynnu sylw at broblemau o ran ystad y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd ar y brig yng Nghymru o ran swm y gwaith cynnal a chadw sy'n aros i gael ei wneud[2], sef gwerth £41.5 miliwn[3], wedi'i addasu yn ôl risg, yn 2015-16. Mae bron i £21 miliwn o'r gwaith sy'n aros i gael ei wneud wedi'i ddynodi fel risg uchel, ac mae £16 miliwn arall wedi'i ddynodi fel risg sylweddol. Mae adolygiad o'r Adroddiadau Blynyddol am Gyflwr a Pherfformiad Ystad GIG Cymru rhwng 2008-09 a 2015-16 yn dangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol is na chyfartaledd Cymru yn ôl dangosyddion ystadau Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu'n gyson â bodloni targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwr ffisegol a chydymffurfio â gofynion statudol a rheolau diogelwch.

8 Yn 2016-17, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd bennu cyllideb ariannol gytbwys, ac roedd ganddo ddiffyg alldro o £28.8 miliwn. Mewn cyd-destun ariannol anodd a chyda llawer o waith cynnal a chadw'n aros i gael ei wneud, mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cael y gwerth gorau am arian o'i ystad a'r adnoddau cysylltiedig.

9 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn a ganlyn: **A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei ystad yn effeithiol?** Wrth ateb y cwestiwn hwn, rydym wedi ystyried:

- a yw dull strategol y Bwrdd Iechyd o reoli ei ystad yn gadarn;
- a yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaeth ystadau sy'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

10 Mae ein hadolygiad wedi ystyried y strategaeth a'r trefniadau sydd ar waith i reoli'r ystad. Nid ydym wedi adolygu'r cynlluniau cyfalaf mawr fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru'n cynnal adolygiad o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd.

[1] Ym mis Awst 2016, penderfynodd y tîm rheoli y byddai rheoli eiddo ac asedau hefyd yn dod yn rhan o gylch gwaith yr is-adran hon.

[2] Y gwaith cynnal a chadw sy'n ofynnol i sicrhau bod yr asedau'n bodloni'r cyflwr ffisegol a bennir gan y GIG a/neu i gydymffurfio â gofynion diogelwch tân gorfodol a deddfwriaeth diogelwch statudol. Y Byrddau Iechyd â'r costau uchaf ar ôl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2015-16 oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, £26 miliwn, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, £21 miliwn, wedi'u haddasu yn ôl risg.

[3] Ystadau'r GIG, **A risk-based methodology for establishing and managing backlog Gateway reference 4102**, TSO, 2004.

11 Rydym wedi dod i'r casgliad bod: **y Bwrdd Iechyd yn gwella'r modd y mae'n rheoli ei ystad, ond ei fod yn ei chael yn anodd dyrannu digon o adnoddau ar gyfer yr ystad ac nad oes ganddo strategaeth gyffredinol i fynd i'r afael ag ardaloedd uchel eu risg.** Rydym wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- mae dull strategol y Bwrdd Iechyd o reoli ei ystad yn gwella, ond mae angen codi proffil materion sy'n ymwneud â'r ystad yn y Bwrdd ac nid oes strategaeth gyffredinol ar gael hyd yma i fynd i'r afael ag ardaloedd uchel eu risg:
  - mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau strwythur yr is-adran ac mae rhagor o newidiadau yn yr arfaeth;
  - byddai modd cryfhau'r gwaith o graffu ar faterion sy'n ymwneud â'r ystad a'u herio ar lefel y Bwrdd;
  - nid oes strategaeth gyffredinol ar gael ar gyfer yr ystad, er bod gweledigaeth glir ar gael ar gyfer y swyddogaeth ystadau;
  - mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad oes ganddo ddarlun clir o gyflwr ei ystad, ond mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â hyn;
  - mae'r Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu ei waith cyfalaf gan ddefnyddio nifer o feini prawf, gan gynnwys risg.
- mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chael yn anodd dyrannu digon o adnoddau i gynnal ei ystad, mae ei berfformiad o ran safonau Cymru wedi dirywio, ac nid yw'r gwaith mewnol i fonitro perfformiad wedi datblygu'n ddigonol:
  - oherwydd y broses hanesyddol o bennu'r gyllideb, mae'n bosibl nad yw'r gyllideb refeniw bresennol ar gyfer yr ystad yn adlewyrchu'n llwyr faint a chyflwr gwael yr ystad a'r angen i gydymffurfio â safonau;
  - ni cheir cydbwysedd rhwng atgyweiriadau ymatebol a gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu, ac fe all hyn roi gwerth gwael am arian;
  - mae'r perfformiad yn erbyn mesurau perfformiad Ystadau GIG Cymru'n wael ac mae'n parhau i ddirywio;
  - mae'r ffaith nad oes dangosyddion perfformiad allweddol ar gael yn wendid ac mae'n cyfyngu ar allu'r rheolwyr i oruchwylio'r sefyllfa ac i roi sicrwydd yn ei chylch;
  - mae'r rheolwyr yn cymryd camau i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol gwael, salwch a chydymffurfiaeth â'r drefn arfarnu perfformiad.

# Argymhellion

12 O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi gwneud y saith argymhelliad a nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: argymhellion

Yn y tabl isod, nodir y saith argymhelliad yr ydym wedi'u gwneud yn sgil ein hadolygiad o ystad y Bwrdd Iechyd.

| Argymhellion |
| --- |
| **Proffil materion sy'n ymwneud â'r ystad**<br>A1 Pennu aelod annibynnol i gynrychioli materion sy'n ymwneud â'r ystad ar lefel y Bwrdd:<br>• sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r ystad yn cael digon o sylw ar lefel y Bwrdd;<br>• cael eiriolwr dros faterion sy'n ymwneud â'r ystad ar lefel y Bwrdd.<br>A2 Pennu pwyllgor i dderbyn yn ffurfiol wybodaeth benodol am yr ystad yn rheolaidd. Dylai'r wybodaeth gynnwys y pethau a ganlyn, ymhlith eraill:<br>• gwybodaeth am berfformiad yr ystad, gan gynnwys cwynion, pryderon a chanmoliaeth;<br>• gwybodaeth am y gweithlu ystadau, gan gynnwys salwch, hyfforddiant gorfodol a chyfraddau PADR. |
| **Cyfeiriad strategol**<br>A3 Llunio strategaeth ystad sydd wedi'i chostio'n llwyr ac sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth glinigol y Bwrdd Iechyd. |
| **Cynllunio ariannol**<br>A4 Cryfhau'r broses o fonitro'r gwaith o gyflawni'r targedau arbedion drwy gydol y flwyddyn.<br>A5 Ar ôl cwblhau'r arolwg arfaethedig o gyflwr y stoc, sicrhau bod rhaglen yn cael ei rhoi ar waith i fonitro ac i ddiweddaru'r data'n rheolaidd i gynnal uniondeb, dilysrwydd a chyflawnder yr arolwg hwn ar sail dreigl tair i bum mlynedd. |
| **Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau**<br>A6 Gwella'r ffocws ar gwsmeriaid a'r ymgysylltu â chlinigwyr drwy wneud gwell defnydd o fforymau amlddisgyblaeth i drafod materion sy'n ymwneud â'r ystad, er enghraifft, timau ardal cymunedol a chyfarfodydd â Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru. |
| **Rheoli perfformiad**<br>A7 Cryfhau'r gwaith o reoli perfformiad yr ystad drwy ddatblygu a monitro cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella'r modd y mae'n rheoli ei ystad, ond mae'n ei chael yn anodd dyrannu digon o adnoddau ar gyfer yr ystad ac nid oes ganddo strategaeth gyffredinol i fynd i'r afael â meysydd uchel eu risg

### Mae dull strategol y Bwrdd Iechyd o reoli ei ystad yn gwella, ond mae angen codi proffil materion sy'n ymwneud â'r ystad yn y Bwrdd ac nid oes strategaeth gyffredinol ar gael hyd yma i fynd i'r afael ag ardaloedd uchel eu risg

#### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau strwythur yr is-adran ac mae rhagor o newidiadau yn yr arfaeth

13 Yn ystod 2015, bu i'r Bwrdd Iechyd ailstrwythuro rhai is-adrannau, gan gynnwys dod â'r swyddogaethau ystadau a chyfleusterau ynghyd mewn un is-adran (yr is-adran). Yn ystod y gwaith ailstrwythuro hwn, bu i'r Bwrdd Iechyd benodi ei Gyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau cyntaf. Yn yr is-adran, ceir dau gyfarwyddwr cynorthwyol hefyd, y naill yn gyfrifol am faterion gweithredol sy'n ymwneud â'r ystad a'r llall yn gyfrifol am reoli cyfleusterau, gan gynnwys gwasanaethau fel arlwyo. Mae'r strwythur newydd yn darparu llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer yr is-adran.

14 Yn ôl staff, mae'r ailstrwythuro wedi cael effaith gadarnhaol, gan greu llinellau atebolrwydd cliriach a llai o wrthdaro rhwng y swyddogaethau ystadau a chyfleusterau o ran arian. Ar hyn o bryd, mae'r is-adran yn ymgynghori ynghylch ailstrwythuro pellach. Bydd hyn yn cynnwys opsiynau i wneud elfennau fel yr Uned Fusnes a'r swyddogaeth Rheoli Eiddo ac Asedau yn rhan o'r is-adran.

15 Nid yw'r is-adran yn cynnwys swyddogaeth cynllunio cyfalaf y Bwrdd Iechyd. Mae'r swyddogaeth honno'n perthyn i adran sy'n rhan o bortffolio'r Cyfarwyddwr Strategaeth. Bu inni ganfod bod y graddau y mae staff y Bwrdd Iechyd yn deall y rhaniad hwn yn amrywio, a hynny oherwydd bod y ddwy swyddogaeth wedi rhannu'r cyfrifoldeb dros rai prosiectau cyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf gan fod llai o gapasiti yn y tîm cynllunio cyfalaf. Mae'r is-adran wedi cydnabod y dryswch hwn. O'i herwydd, mae cynllun prosiectau cyfalaf yr is-adran yn 2017-18 yn fwy eglur ac mae'n nodi pa dîm sy'n gyfrifol am bob prosiect.

## Byddai modd cryfhau'r gwaith o graffu ar faterion sy'n ymwneud â'r ystad a'u herio ar lefel y Bwrdd

16 Trafodir materion sy'n ymwneud â'r ystad yng nghyfarfodydd yr uwch dîm rheoli ystadau ac mewn cyfarfodydd is-adrannol a gynhelir bob deufis gyda'r holl staff ystadau a chyfleusterau. Caiff materion perthnasol eu huwchgyfeirio i gyfarfodydd misol y Grŵp Rheoli Gweithredol ac mae'r Prif Swyddog Gweithredu'n tynnu sylw'r Bwrdd atynt yn ôl y gofyn.

17 Mae trefniadau rheoli perfformiad presennol yr is-adran yn seiliedig ar gyfarfodydd y Grŵp Rheoli Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau, y Cyfarwyddwr Strategaeth a'r Prif Swyddog Gweithredu'n mynd i'r cyfarfodydd hyn, ynghyd â Chyfarwyddwyr Gweithredol eraill. Cyflwynir adroddiadau chwarterol yr is-adran Ystadau a Chyfleusterau i'r Grŵp Rheoli Gweithredol, ac nid i'r Bwrdd. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu rhywfaint o wybodaeth bwysig, fel mesurau allweddol o ran cyllid a'r gweithlu. Mae'r is-adran yn cyflwyno ei Adroddiad Blynyddol i grŵp sy'n cynnwys Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, mewn digwyddiad blynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd, nac unrhyw un o'i bwyllgorau, yn cael cyfle ffurfiol i weld adroddiadau blynyddol nac adroddiadau chwarterol yr is-adran, nac i graffu arnynt.

18 Nid yw'r Bwrdd na'r pwyllgorau'n cael llawer iawn o drafodaethau ffurfiol ynghylch perfformiad yr ystad. Er bod y materion hyn yn amlwg i'r Bwrdd mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf, fel ailddatblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra, nid oedd papurau'r Bwrdd yn 2016 yn cyfeirio at faterion cynnal a chadw beunyddiol. Cafwyd trafodaeth ehangach am eitemau fel arbedion, atal haint a datblygiad strategaeth iechyd meddwl a strategaeth glinigol ehangach y Bwrdd Iechyd, ond nid oedd yr adroddiadau hyn yn canolbwyntio llawer ar ystad y Bwrdd Iechyd na'i pherfformiad.

19 Yn yr un modd, ni chawsom hyd i lawer o dystiolaeth o drafodaethau ynghylch materion sy'n ymwneud â'r ystad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad na'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Er bod yr ystad wedi'i thrafod yn nhermau prosiectau cyfalaf penodol a safonau glendid, ni chafwyd unrhyw drafodaeth am berfformiad yr ystad yn benodol. Nid yw'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig a gyflwynir i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad bob mis yn cynnwys adran benodol am berfformiad yr ystad a chyfleusterau ychwaith, ac mae'r unig gyfeiriadau at yr ystad yn ymwneud â gwybodaeth am y gweithlu (absenoldebau salwch, cyfraddau PADR a hyfforddiant). Oherwydd nad yw'r Bwrdd na'r pwyllgorau'n craffu'n rheolaidd ar berfformiad yr ystad, mae perygl y byddant yn dibynnu'n ormodol ar i'r Prif Swyddog Gweithredu graffu'n ddigonol ar berfformiad yr ystad ar lefel strategol.

20 Er nad yw'r Bwrdd na'i is-bwyllgorau'n craffu ar y materion hyn yn rheolaidd, roedd y staff y bu inni siarad â nhw'n tybio bod materion sy'n ymwneud â'r ystad wedi dod yn fwy amlwg dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd gwaith mwy anffurfiol. O safbwynt cadarnhaol, mae'r Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau wedi arwain dwy o sesiynau datblygu'r Bwrdd dros y ddwy flynedd diwethaf, y naill o dan y teitl

‘The Estate We’re In’ a’r llall yn trafod y gwaith ailstrwythuro pellach sy’n mynd rhagddo yn yr is-adran. Mae hyn wedi codi proffil materion sy’n ymwneud â’r ystad ymhlith yr aelodau annibynnol.

21 Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallai’r Bwrdd wella ei ddealltwriaeth o faterion sy’n ymwneud â’r ystad ymhellach. Er enghraifft, mae cofrestr risg gorfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys risg sy’n ymwneud â’r ystad. Mae’n nodi bod ‘risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn darparu amgylchedd adeiledig diogel sy’n cydymffurfio â’r safonau oherwydd buddsoddiad ariannol annigonol a chamau i resymoli’r ystad’. Er bod y risg gorfforaethol yn dangos bod y Bwrdd yn cydnabod y risg i’r amgylchedd adeiledig, yn rhannol oherwydd ‘buddsoddiad ariannol annigonol’, mae’r camau lliniaru a bennwyd yn ceisio ffrwyno’r risg, yn hytrach na mynd i’r afael â hi. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi pennu targed i leihau’r risg o’r sgôr risg bresennol o ugain i naw, ac mae’n anelu at wneud hynny erbyn mis Ionawr 2022. Er bod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn adolygu’r risg hon bob blwyddyn, nid oes llawer o waith yn mynd rhagddo, rhwng y naill adolygiad blynyddol a’r llall, i adolygu’r rheolaethau a’r mesurau i fynd i’r afael â’r risg.

## Nid oes strategaeth gyffredinol ar gael ar gyfer yr ystad, er bod gweledigaeth glir ar gael ar gyfer y swyddogaeth ystadau

22 Gall sefydliadau ddefnyddio strategaeth dda sy’n ateb y tri chwestiwn a ganlyn:

- Ble ydym ni nawr?
- Ble ydym ni am fod?
- Sut ydym ni’n cyrraedd y man hwnnw?

23 Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ar gyfer ei ystad. Mae’r gwaith o lunio strategaeth o’r fath yn ddibynnol ar gymeradwyo strategaeth glinigol y Bwrdd Iechyd, ‘Byw’n Iach, Aros yn Iach’, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn yr hydref 2017. Nod y strategaeth ‘Byw’n Iach, Aros yn Iach’ yw gwella a newid y ffordd y mae’r Bwrdd Iechyd yn darparu ei wasanaethau, a rhesymoli ystad y Bwrdd Iechyd yw un o’r blaenoriaethau.

24 Mae’r Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau a’r Pennaeth Cynllunio Cyfalaf yn aelodau o ffrwd waith sy’n datblygu’r strategaeth ystad a fydd yn cyd-fynd â strategaeth glinigol y Bwrdd Iechyd. Mae’r is-adran yn disgwyl i’r strategaeth gael ei chyhoeddi erbyn yr hydref 2018. Ar hyn o bryd, bwriedir i’r strategaeth gynnwys yr hyn y mae angen ei wneud i gadw’r ystad bresennol yn weithredol, ynghyd â’r hyn sydd ei angen i fodloni nodau strategol hirdymor ehangach y Bwrdd Iechyd. Mae’n hollbwysig bod y Bwrdd Iechyd yn alinio’r ddwy agwedd hyn i ddileu’r risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr ystad nawr a fydd yn cyfyngu ar ei benderfyniadau yn y dyfodol. Er enghraifft, nid yw’r gwaith sy’n cael ei wneud i rai rhannau o’r ystad yn cydweddu â modelau gwasanaeth gweithredol neu glinigol y dyfodol.

25 Oherwydd nad oes strategaeth ar gael ar gyfer yr ystad ar hyn o bryd, mae'r swyddogaeth ystadau wedi llunio gweledigaeth a'i mynegi drwy Gynllun Gweithredu Blynyddol 2016-17:

- hybu effeithlonrwydd a gwerth am arian;
- rheoli asedau'n effeithiol;
- cyflawni'r hanfodion;
- sefydlu'r swyddogaeth fel gwasanaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

26 Mae Cynllun Gweithredu Blynyddol yr is-adran yn ddolen gyswllt rhwng ei nodau a saith nod strategol y Bwrdd Iechyd. Mae'n pennu pum thema gorfforaethol i ategu nodau'r Bwrdd Iechyd, fel rheoli cyllid a llunio cynllun gweithlu. Ceir wyth thema gwasanaeth allweddol sy'n ymwneud yn benodol â'r ystad hefyd, fel cydymffurfio â gofynion statudol, gwneud y gorau o'r lle sydd ar gael, a'r perfformiad o ran ynni a'r defnydd ohono. Mae'r is-adran yn rhoi adroddiadau cynnydd ynghylch y themâu allweddol hyn yn ei adroddiadau chwarterol a'i adroddiadau blynyddol.

27 Mae'r is-adran hefyd yn datlbygu dull strategol o adolygu'r ystad gofal sylfaenol a'i mabwysiadu os oes angen. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros rywfaint o'r ystad gofal sylfaenol yn ystod 2016, ond erbyn hyn mae wedi datblygu dull mwy rhagweithiol o adolygu'r risgiau hyn ac ymateb yn effeithiol. Ym mis Chwefror 2017, bu i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad gymeradwyo set o egwyddorion interim i gefnogi'r gwaith o adolygu ceisiadau i brydlesu safleoedd gofal sylfaenol. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i wneud penderfyniadau cynyddol strategol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad oes ganddo ddarlun clir o gyflwr ei ystad, ond mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â hyn

28 Mae arolygon cyflwr yn offerynnau hanfodol i ddod i ddeall cyflwr yr ystad yn llwyr. Mae Dangosfwrdd Ystadau'r GIG yn 2015-16 yn amcangyfrif mai bron i £21 miliwn yw costau'r gwaith cynnal a chadw uchel ei risg sy'n aros i gael ei wneud yn y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal arolwg o gyflwr ei ystad yn y saith blynedd diwethaf oherwydd cost cynnal adolygiad o'r fath.

29 Yn ystod 2016, bu i adran Archwilio Mewnol y Bwrdd Iechyd adolygu'r gwaith cynnal a chadw a oedd yn aros i gael ei wneud, a chyflwyno adroddiad terfynol i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2017. Roedd yr adroddiad yn nodi bod y ffigur o bron i £21 miliwn ar gyfer costau'r gwaith cynnal a chadw uchel ei risg sy'n aros i gael ei wneud yn seiliedig ar ddata anghywir sydd wedi dyddio. Felly, gall y ffigur fod yn rhy uchel neu'n rhy isel.

30 I fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw sy'n aros i gael ei wneud, mae'r is-adran yn dyrannu ei harian cyfalaf dewisol i'r gwaith hwnnw â'r risg uchaf. Fodd bynnag, os nad yw'r data a ddefnyddir gan yr is-adran i ddyrannu'r arian yn hollol gywir, mae perygl nad yw'n cael y gwerth gorau am arian o'r gwaith y mae'n ymgymryd ag ef.

31 O gael mynediad at ddata cywir a dibynadwy, bydd modd i’r is-adran flaenoriaethu’r gwaith cynnal a chadw mewn ffordd fwy cadarn. Mae’r is-adran yn bwriadu gwella cywirdeb ei data am yr ystad drwy gynnal arolwg llawn o gyflwr ystad y Bwrdd Iechyd erbyn 2018. Mae hwn yn gam ymlaen i’r is-adran ac i’r Bwrdd Iechyd yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae’n bwysig bod yr is-adran yn datblygu dull hirdymor cynaliadwy o gynnal data cyfredol a chywir, heb orfod dibynnu ar gymorth allanol. O ran arfer da, byddai modd cynnal arolygon treigl o gyflwr rhannau o’r ystad, gyda’r bwriad o roi sylw i bob rhan o’r ystad yn ystod cyfnod penodol o dair neu bum mlynedd.

32 Ddechrau 2017, cynhaliodd y tîm cynllunio cyfalaf adolygiad o ofal sylfaenol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd yn llunio achos busnes i Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer arolwg o gyflwr yr holl ofod acíwt, cymunedol, preswyl a swyddfeydd sy’n eiddo i’r Bwrdd Iechyd. Os caiff yr achos busnes llawn ei gymeradwyo, mae’r Bwrdd Iechyd yn disgwyl i’r arolwg llawn o gyflwr yr ystad gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018.

33 Mae’r is-adran yn bwriadu sefydlu cronfa ddata eiddo integredig i sicrhau bod modd cynllunio a goruchwylio’n well. Ar hyn o bryd, gall yr is-adran seilio ei chronfa ddata eiddo ar dair ffynhonnell:

- system rheoli gwaith: mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu mudo gwybodaeth o dair system wahanol ar draws ei dair ardal i un system GRAMMS sy’n cynnwys gwybodaeth am y tasgau y mae’r timau ystadau’n ymgymryd â nhw ac wedi’u cwblhau, gan gynnwys y gost;
- Cofnod eiddo MyCad[4]: mae’r cofnod yn cael ei gadw gan Gydwasanaethau’r GIG ac mae’n cynnwys gwybodaeth am eiddo sydd ar werth, neu sydd wedi’i werthu, gan gydwasanaethau, gan gynnwys cyfleustodau, hawddfreintiau, hawliau tramwy a manylion perthnasol eraill;
- cofrestr asedau: mae’r gofrestr hon ar ffurf taenlen ar hyn o bryd ac mae’n cynnwys gwybodaeth sy’n dod o’r cofnod eiddo. O dan y strwythur rheoli newydd sy’n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, bydd yr is-adran yn cynnwys tîm rheoli asedau pwrpasol.

34 Mae’r is-adran wedi mynegi diddordeb mewn datblygu system meddalwedd ystadau i gadw’r holl wybodaeth mewn un man, ond nid yw wedi gwneud hyn hyd yma oherwydd y gost sydd ynghlwm wrth gaffael y system. Mae’r Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i gefnogi’r system hon ac mae wedi argymell i grŵp ystadau Cymru gyfan y dylid defnyddio fersiwn safonol ledled Cymru. Tra mae’r Bwrdd Iechyd yn ymchwilio i’r datrysiad hwn, mae’r is-adran yn cryfhau ei defnydd o’r system MyCad i sicrhau ei bod yn cynnwys yr wybodaeth a gafodd ei choladu drwy’r arolygon cyflwr a gwblhawyd eisoes a’r rheini y bwriedir eu cynnal yn 2017-18.

[4] System rheoli eiddo MyCad

## Mae’r Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu ei waith cyfalaf gan ddefnyddio nifer o feini prawf, gan gynnwys risg

35 Rhaid i’r is-adran wneud cais am arian o’r rhaglen cyfalaf dewisol. Mae’n cystadlu â’r adrannau cynllunio cyfalaf, gwybodeg a dyfeisiau meddygol am arian cyfalaf. Yn 2016-17, £9.6 miliwn oedd y dyraniad cyfalaf (gyda £4.8 miliwn ychwanegol ar ffurf dyraniad afreolaidd gan Lywodraeth Cymru yn ddibynnol ar gymeradwyo’r rhaglenni arfaethedig), sef cyfanswm o £14.4 miliwn. Dyrannwyd £3.5 miliwn o’r arian hwnnw i’r swyddogaeth ystadau gweithredol ar ôl cais am £3.8 miliwn.

36 Mae’r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull sgorio ar draws nifer o feini prawf i ddyrannu ei arian cyfyngedig ar gyfer gwaith cyfalaf. Mae is-grŵp y rhaglen gyfalaf yn ystyried pob cynllun a gynigir ar gyfer cyfalaf dewisol. Mae’r grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Swyddog Gweithredu a’r Cyfarwyddwr Nyrsio, ac mae’n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Strategaeth. Yn sgil ein gwaith maes, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau wedi ymuno â’r grŵp hwn yn ddiweddar.

37 Mae is-grŵp y rhaglen gyfalaf yn blaenoriaethu cynlluniau ar sail risg, cydymffurfiaeth â gofynion statudol, parhad, cydbwysedd ariannol a p’run a ydynt yn cefnogi’r cynllun gweithredol. Mae arweinwyr pob rhaglen hefyd yn mynd i’r cyfarfodydd. Er bod y grŵp hwn wedi dyrannu £14.4 miliwn ar gyfer cynlluniau yn 2017-18, gwnaed ceisiadau am fwy na £30 miliwn. Ar ôl cymeradwyo’r ceisiadau, mae is-grŵp y rhaglen gyfalaf yn cydweithio â Grŵp Rheoli Rhaglen Gyfalaf y Bwrdd Iechyd i fonitro hynt y ceisiadau cyfalaf a gymeradwywyd. Mae’r grŵp hwn yn rheoli prosiectau cyfalaf, yn gwneud argymhellion i is-grŵp y rhaglen gyfalaf ac yn rhoi adroddiadau i’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

38 Mae’r is-adran yn blaenoriaethu’r defnydd o gronfeydd cyfalaf dewisol y swyddogaeth ystadau gweithredol drwy gofrestri risg yr ardaloedd. Ar ôl adolygiad archwilio mewnol, mae’r is-adran wedi mynd ati’n ddiweddar i safoni cofrestri risg pob ardal, gan fod fersiwn y dwyrain yn wahanol iawn i fersiynau’r canol a’r gorllewin. Mae rhai gwahaniaethau o hyd o ran fformat y cofrestri, ond mae’r wybodaeth a geir ynddynt yr un fath. Mae cofrestri risg yr ardaloedd yn cynnwys dros gant o risgiau yr un ac maent yn cynnwys gwybodaeth fanwl a chynhwysfawr am bob risg. Mae’r cofrestri’n cynnwys cynllun pum mlynedd i reoli’r risgiau mwyaf. Mae’r is-adran yn disgwyl i’r gwaith o reoli risgiau wella drwy fynd ati i storio’r cofrestri risg yn Datix. Ar adeg ein hadolygiad, roedd hyn yn cael ei drafod gan Uned Fusnes y Bwrdd Iechyd.

# Mae’r Bwrdd Iechyd yn ei chael yn anodd dyrannu digon o adnoddau i gynnal ei ystad, mae ei berfformiad o ran safonau Cymru wedi dirywio, ac nid yw’r gwaith mewnol i fonitro perfformiad wedi datblygu’n ddigonol

## Oherwydd y broses hanesyddol o bennu’r gyllideb, mae’n bosibl nad yw’r gyllideb refeniw bresennol ar gyfer yr ystad yn adlewyrchu’n llwyr faint a chyflwr gwael yr ystad a’r angen i gydymffurfio â safonau

39 Yn 2016-17, ychydig o dan £47 miliwn oedd y gyllideb refeniw weithredol ar gyfer Ystadau a Chyfleusterau[5]. Mae'n anodd cymharu'r ffigur hwn â blynyddoedd blaenorol oherwydd mai dim ond yn ddiweddar y mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau darparu gwybodaeth gyllidebol ar y lefel hon. Ceir braslun o’r gyllideb Ystadau a Chyfleusterau yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: cyllidebau 2016-17 ar gyfer ystadau a chyfleusterau

Mae'r tabl isod yn dangos mai £15.0 miliwn oedd y gyllideb ar gyfer ystadau yn 2016-17

| | £ |
|---|---|
| Ystadau Gweithredol | £15.0 miliwn |
| Cyfleusterau | £31.3 miliwn |
| Cyfleustodau | £14.0 miliwn |
| Iechyd a Diogelwch | £0.3 miliwn |
| Rheoli Eiddo | £0.2 miliwn |

Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r Bwrdd Iechyd

40 Mae Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu[6] (CIBSE) yn argymell y dylai cyllidebau fod ar sail sero. Yn hytrach nag ychwanegu swm at gyllideb y flwyddyn flaenorol, mae cyllidebau ar sail sero yn dechrau o ‘sero’ ac mae’r gyllideb yn cael ei hadeiladu ar sail anghenion a chostau. Mae’r dull hwn yn creu cyllideb fwy cynaliadwy, gan leihau’r risg na fydd yr anghenion cynnal a

[5] £46.8 miliwn: Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cyfleustodau. Yn 2016-17, £14.0 miliwn oedd y ffigur ar gyfer y rhain.

[6] Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu, **Maintenance Engineering and Management Guide M**, Tachwedd 2014.

chadw hanfodol a statudol yn cael eu bodloni. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r ystad yn newid yn sylweddol, er enghraifft, drwy godi adeilad newydd, gwerthu eiddo, neu ad-drefnu.

41 Yn 2015-16, bu i'r Bwrdd Iechyd ymgymryd â rhyw fath o gyllidebu ar sail sero ar draws pob is-adran. Roedd y cyfrifiadau ac eithrio cyflogau'n seiliedig ar sefyllfa arferol is-adran yn y nawfed mis, ac roedd hyn yn cael ei gymhwyso i'r flwyddyn gyfan. Mae'r Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau'n teimlo bod y dull hwn yn ddefnyddiol oherwydd ei fod yn caniatáu i'r is-adran glustnodi cyllidebau cynnal a chadw i'w hadeiladau. Fodd bynnag, oherwydd maint ac oedran yr ystad, gall y dull hwn fod yn anghynaliadwy yn y pen draw, felly nid oes cyllideb wedi'i chlustnodi i rai adeiladau. Defnyddiwyd y gyllideb ar sail sero hon ar gyfer 2016-17 a 2017-18 hefyd.

42 Er bod modd dadlau bod cyllidebu ar sail sero yn gallu arwain at lunio cyllidebau afrealistig, mae'n bwysig bod modd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y cyllidebau ar gyfer gwaith ei is-adrannau'n adlewyrchu eu hanghenion cytbwys a realistig cyhyd ag y bo modd.

43 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys costau cynnal a chadw adeiladau newydd yn y dyfodol yn y gyllideb berthnasol fel mater o drefn. Nid yw cyngor CIBSE, sef bod costau cynnal a chadw adeiladau newydd yn is, ond yn wir yn rhannol. Dylai adeiladau newydd fod yn llai tebygol o ddiffygio, ond maent yn fwy cymhleth nag adeiladau hŷn. O'r herwydd, gall adeiladau newydd fod yn fwy costus i'w cynnal yn y tymor hir, a gall fod angen sgiliau gwahanol i wneud hynny.
O fethu â darparu ar gyfer costau cynnal a chadw adeiladau newydd, byddant yn dal i roi pwysau ar y gyllideb yn y tymor hir.

44 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull mwy cadarn i bennu cost oes gyfan achosion busnes, ond nid yw'n gwneud hyn ar gyfer prosiectau llai ar hyn o bryd. Mae costau oes gyfan yn cael eu cynnwys mewn achosion busnes y mae eu gwerth yn fwy na throthwy ariannol penodol ac sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae llawer o staff, gan gynnwys uwch-swyddogion ystadau a rheolwyr ariannol sy'n gyfrifol am ystadau gweithredol, wedi dweud wrthym mai datblygiad diweddar yw hwn ac, yn hanesyddol, mae'r ffigurau hyn wedi'u hepgor neu'u cyfrif yn rhy fach i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu cymeradwyo. Yn unol â phrosesau presennol y Bwrdd Iechyd, nid yw'n ofynnol darparu costau oes gyfan mewn ceisiadau am brosiectau llai. Mae hyn yn creu sefyllfa lle nad yw costau cynnal a chadw adeilad neu waith newydd yn cael eu bwydo i'r cynnydd yn y gyllideb ystadau, ac felly nid yw'r costau cynnal a chadw yn y dyfodol yn cael eu cydnabod ac ni chynllunnir ar eu cyfer.

## Ni cheir cydbwysedd rhwng atgyweiriadau ymatebol a gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu, ac fe all hyn roi gwerth gwael am arian

45 Dylai fod gan fyrddau iechyd strategaeth cynnal a chadw lle mae’r llwyth gwaith ymatebol a’r llwyth gwaith wedi’i drefnu yn gytbwys. Ar y cyfan, mae atgyweiriadau ymatebol, heb eu cynllunio, yn ddrutach na gwaith cynnal a chadw wedi’i drefnu.

Yn y tymor hir, dylai mwy o waith wedi'i drefnu arwain at lai o waith ymatebol a llai o ddiffygion trychinebus. Fodd bynnag, gallai cynnal a chadw gormodol ddraenio adnoddau'n ddiangen gan arwain at broblemau eraill.

46 Yn unol ag arferion da, dylai swyddogaeth ystadau adolygu'r lefelau gwaith ymatebol a'r gwaith wedi'i drefnu o bryd i'w gilydd i sicrhau bod cydbwysedd effeithlon rhwng y ddau. Er nad oes meincnod arfer da y cytunwyd arno gan y GIG, mae adrannau cynnal a chadw llywodraeth leol yn gyffredinol o'r farn y dylai'r rhaniad rhwng gwaith wedi'i drefnu ac atgyweiriadau ymatebol fod rhwng 70:30 a 60:40 yn ôl gwerth.

47 Mae'r cydbwysedd rhwng gwaith ymatebol a gwaith wedi'i drefnu yn y Bwrdd Iechyd yn dangos tuedd tuag at waith ymatebol. Ar hyn o bryd, 40:60 yw'r rhaniad rhwng gwaith wedi'i drefnu a gwaith ymatebol, a hynny'n bennaf oherwydd oedran adeiladau'r Bwrdd Iechyd. Mae Arddangosyn 3 yn dangos data 2015-16 fesul ardal.

### Arddangosyn 3: y cydbwysedd rhwng y gwaith ymatebol a'r gwaith wedi'i drefnu ym mhob un o ardaloedd y Bwrdd Iechyd yn 2015-16

| | 2015-16 | |
|---|---|---|
| | Wedi'i drefnu | Ymatebol |
| Dwyrain | 49% | 51% |
| Canol | 27% | 73% |
| Gorllewin | 48% | 52% |
| Bwrdd Iechyd | 41% | 59% |

Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata'r Bwrdd Iechyd

48 Mae pob un o ardaloedd y Bwrdd Iechyd yn dangos tuedd o blaid atgyweiriadau ymatebol. Mae hyn yn dangos y gall fod angen i'r Bwrdd Iechyd gadw llygad craffach ar y duedd hon i sicrhau ei fod yn ceisio cael gwerth am arian mewn cyfnod ariannol heriol.

### Mae'r perfformiad o ran mesurau perfformiad Ystadau GIG Cymru yn wael ac mae'n parhau i ddirywio

49 I sicrhau bod y gyllideb ystadau'n rhoi gwerth am arian, dylai'r byrddau iechyd fynd ati'n rheolaidd i werthuso darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Y ffordd orau o wneud hyn yw mewn ffordd gynaliadwy hirdymor wedi'i chynllunio, gan edrych tu hwnt i arbedion tymor byr. O frigdorri cyllidebau, neu arbed costau'n fympwyol, gall sefydliadau fod yn fregus ac yn amharod ar

gyfer y dyfodol, a gall hyn arwain at gostau cyffredinol uwch neu gostau mewn mannau eraill. Mae dull gweithredu strategol hefyd yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cyd-fynd ag amcanion y Bwrdd Iechyd a'r is-adrannau.

50 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio meincnodi ei berfformiad o ran ei ystad drwy gwblhau ffurflenni System Rheoli Perfformiad a Chyfleusterau Ystadau (EFPMS) GIG Cymru. Mae'r rhain yn rhoi bras amcanion defnyddiol i'r Bwrdd Iechyd. Mae Arddangosyn 4 yn dangos perfformiad y Bwrdd Iechyd ar ddangosfwrdd ystadau GIG Cymru. Mae'n dangos bod angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei berfformiad ar draws pob un o feysydd EFPMS i fodloni targed Cymru. Mae Arddangosyn 4 hefyd yn dangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran rhai agweddau wedi dirywio ychydig dros y tair blynedd diwethaf.

### Arddangosyn 4: perfformiad yn erbyn dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 2013-14 i 2015-16, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn mesurau perfformiad EFPMS rhwng 2012 a 2015.

| **Meini prawf asesu** | **Sgôr 2013-14 (%)** | **Sgôr 2014-15 (%)** | **Sgôr 2015-16 (%)** | **Sgôr RAG 2015-16** |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwr ffisegol | 83 | 75 | 75 | Melyn |
| Cydymffurfiaeth â gofynion statudol a rheolau diogelwch | 82 | 78 | 78 | Melyn |
| Cydymffurfiaeth â rheolau diogelwch tân | 82 | 80 | 80 | Melyn |
| Addasrwydd gweithredol | 84 | 84 | 84 | Melyn |
| Y defnydd o le | 88 | 88 | 88 | Melyn |

Sgoriau RAG – Coch hyd at 75%, Melyn 75% – 89% a Gwyrdd 90% neu ragor
Ffynhonnell: Adroddiad Cyflwr a Pherfformiad Ystad GIG Cymru, 2012-15

51 Yn Atodiad 1, dangosir perfformiad hanesyddol y Bwrdd Iechyd ar ddangosfwrdd ystadau GIG Cymru ers 2008. Mae'n dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â bodloni'r targed ar gyfer pob un o'r pum dangosydd dros yr wyth mlynedd diwethaf. Mae Arddangosyn 5 yn cymharu perfformiad y Bwrdd Iechyd â byrddau iechyd eraill Cymru. Mae'n dangos mai'r Bwrdd Iechyd oedd yn perfformio waethaf o ran y mesur defnydd o le. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd yr unig gorff iechyd a fethodd â chael sgôr RAG gwyrdd ar gyfer unrhyw un o'r dangosyddion perfformiad yn 2015-16.

Arddangosyn 5: data EFPMS ar draws cyrff iechyd Cymru 2015-16

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad cyrff iechyd Cymru o ran data EFPMS yn 2015-16.[7]

| | Cyflwr ffisegol (%) | Cydymffurfiaeth â gofynion statudol a rheolau diogelwch (%) | Cydymffurfiaeth â rheolau diogelwch tân (%) | Sefydlogrwydd gweithredol (%) | Y defnydd o le (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| BIP Abertawe Bro Morgannwg | 82 | 89 | 100 | 91 | 98 |
| BIP Aneurin Bevan | 89 | 90 | 95 | 90 | 90 |
| **BIP Betsi Cadwaladr** | **75** | **78** | **80** | **84** | **88** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 78 | 86 | 91 | 56 | 90 |
| BIP Cwm Taf | 85 | 86 | 87 | 97 | 96 |
| BIP Hywel Dda | 87 | 88 | 92 | 92 | 99 |
| BI Addysgu Powys | 62 | 77 | 70 | 71 | 95 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 89 | 92 | 91 | 87 | 99 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 35 | 90 | 90 | 36 | 99 |

Sgoriau RAG – Coch hyd at 75%, Melyn 75% – 89% a Gwyrdd 90% neu ragor
Ffynhonnell: Adroddiad Cyflwr a Pherfformiad Ystad GIG Cymru, 2012-15

52 Ar draws Cymru, mae adrannau ystadau'r cyrff iechyd dan bwysau cynyddol i leihau eu cyllidebau a pharhau i gefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau clinigol diogel ar yr un pryd. Mae uwch-bersonél ystadau yn canolbwyntio mwyfwy ar yr angen i bennu arbedion effeithlonrwydd. Roedd y Rhaglenni Gwella Costau ar draws is-adrannau'r Bwrdd Iechyd yn 2016-17 yn 3.0%. O ran 2017-18, 3.5% yw'r ffigur. Fodd bynnag, cafodd ffigur yr is-adran Ystadau a Chyfleusterau ei ostwng i 1.4%. Nid yw'r is-adran wedi llwyddo i fodloni'r targedau arbedion yn y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, mae'r is-adran wedi mantoli'r gyllideb ar

[7] Nid yw Adroddiadau Cyflwr a Pherfformiad Ystad GIG Cymru’n cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru

ddiwedd y blynyddoedd diwethaf oherwydd swyddi gwag parhaus, ond mae'n cydnabod na fydd hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir.

53 Ar hyn o bryd, nid oes gan yr is-adran gynllun ysgrifenedig i geisio gwella gwerth am arian o'i swyddogaeth ystadau gweithredol. Fodd bynnag, mae'r is-adran yn cymryd nifer o gamau i bwyso a mesur ffyrdd o wella ei heffeithlonrwydd. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n arfarnu opsiynau strategol ar gyfer ei lety preswyl a'i wasanaethau golchi dillad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi trefnu i 16% o'i wasanaethau gael eu darparu dan gontract allanol. Mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 15%. O ystyried y cyfyngiadau ariannol ar yr is-adran, mae staff uwch yn cydnabod y bydd angen iddi ystyried pa wasanaethau sy'n flaenoriaeth, a pha rai nad ydynt yn flaenoriaeth, er mwyn bodloni'r targedau a pharhau i gydymffurfio â'r gofynion statudol. Ers ein gwaith maes, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi gwybod inni ei fod hefyd yn bwriadu canoli ei ddesgiau cymorth ar ffurf un system desg gymorth ddechrau 2018. Mae hwn yn gam cadarnhaol, gan fod nifer o sefydliadau eraill y GIG wedi cyflwyno un system desg gymorth i wella effeithlonrwydd.

54 Er bod y camau hyn yn gadarnhaol, os na fydd yn mynd ati i gynyddu gwerth am arian mewn ffordd gydgysylltiedig a hirdymor, mae perygl y bydd yr is-adran yn colli cyfleoedd pellach, neu'n pennu gostyngiadau cost byrdymor a allai fod yn wrthgynhyrchiol yn y tymor hwy.

### Mae'r ffaith nad oes dangosyddion perfformiad allweddol ar gael yn wendid ac mae'n cyfyngu ar allu'r rheolwyr i oruchwylio’r sefyllfa ac i roi sicrwydd yn ei chylch

55 Pennu targedau perfformiad ystyrlon, mesur y perfformiad o ran y targedau hynny ac adrodd arno mewn ffordd gyson yw prif nodweddion system rheoli perfformiad dda.

56 Cynnal a chadw yw un o rannau mwyaf swyddogaeth ystadau'r Bwrdd Iechyd. Bu inni adolygu'r gwasanaeth hwn er mwyn gwerthuso pa mor dda y mae’r gwaith o reoli perfformiad yn debygol o fod ar draws y swyddogaeth ystadau yn ei chyfanrwydd. Byddem yn disgwyl i set gynhwysfawr o safonau perfformiad gynnwys categorïau bras fel:

- amser;
- cost;
- ansawdd;
- gwasanaeth;
- adborth gan gwsmeriaid/bodlonrwydd defnyddwyr.

57 Mae'r swyddogaeth ystadau'n coladu gwybodaeth am 'nifer y tasgau a ddosbarthwyd/nas dechreuwyd/sydd ar waith/a gwblhawyd' bob mis ac mae'n paratoi adroddiad Perfformiad Gwaith Uniongyrchol a ddarperir i'r Uwch-swyddogion Ystadau, y Swyddogion Ystadau ac Arweinwyr Timau ac a gaiff ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol yr is-adran. Fodd bynnag, nid yw'r mesur hwn yn dangos am ba hyd y mae tasg wedi bod yn aros i gael ei chyflawni na pha mor hir

y cymerodd i'w chwblhau. Ni cheir fawr ddim tystiolaeth ychwaith fod y mesurau hyn yn destun gwaith craffu cadarn ar lefel uwch.

58 Mae adroddiadau perfformiad chwarterol yr is-adran yn rhoi diweddariadau o ran yr wyth 'thema gwasanaeth allweddol' ar gyfer ystadau gweithredol, fel cydymffurfiaeth â gofynion statudol a rheolau diogelwch. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau chwarterol yn rhoi manylion am y camau a gwblhawyd na'r perfformiad o ran y themâu allweddol. Nid yw'r adroddiad ond yn nodi ym mha chwarter y disgwylir i bob un o'r camau allweddol ddigwydd, ynghyd â nodyn byr am effaith a phroffil y gwelliant. Nid yw'r cyflwyniad a ddefnyddir i adrodd am gynnydd ond yn cynnwys sgôr RAG ar gyfer pob ardal. Ni cheir unrhyw fanylion am y problemau sy'n codi o ran cyflawni'r themâu allweddol o fewn yr amserlen arfaethedig. Nid yw'r adroddiadau chwarterol yn cynnwys unrhyw fanylion am berfformiad gweithredol y tîm ystadau gweithredol.

59 Mae dibynnu ar fesurau perfformiad cyfyngedig yn wendid sy'n cyfyngu ar allu'r rheolwyr i oruchwylio ac i roi sicrwydd. Mae diffygion o ran y modd y caiff rhywfaint o'r data hyn eu crynhoi a'u dadansoddi'n dwysáu'r gwendid hwn. Yn ardal y gorllewin, mae systemau gwybodaeth GRAMMS yn cofnodi costau a gweithgareddau cynnal a chadw, ac yn adrodd arnynt. Gall y system GRAMMS sydd ar waith yn y gorllewin ddarparu data a phenawdau ar unwaith sy'n cael eu bwydo i'r arweinydd gweithredol, y Prif Swyddog Gweithredu. Nid yw dwy ardal arall y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r system hon ar hyn o bryd. Mae'r ardal ganol yn defnyddio system o'r enw Impact ac mae ardal y dwyrain yn defnyddio system o'r enw Backtraq. Mae'r is-adran yn gweithio i safoni'r system GRAMMS ar draws y tair ardal yn ystod 2017. Cafodd yr wybodaeth gaffael ei safoni ym mis Ebrill 2017 a'r wybodaeth cynnal a chadw ei safoni ym mis Hydref 2017.

60 Mae'r system atgyweiriadau'n seiliedig ar drefn sy'n blaenoriaethu ceisiadau atgyweirio, felly mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu categoreiddio'n gywir. O gatalogio ceisiadau atgyweirio'n wael, gallai arwain at gost ddiangen neu at oedi diangen cyn cwblhau tasgau sy'n fwy o flaenoriaeth. Nid yw'r is-adran yn defnyddio systemau i roi sicrwydd bod ceisiadau atgyweirio'n cael eu categoreiddio'n gywir. Er enghraifft, ni cheir rhaglen o archwiliadau rheolaidd o'r ddesg gymorth, o'r ceisiadau atgyweirio, nac o'r atgyweiriadau a drefnwyd na'r atgyweiriadau ymatebol.

61 Ni ddarparwyd hyfforddiant diweddar i staff y pedair desg gymorth wahanol. Mae'r rheolwyr yn teimlo ei bod yn debygol bod cysondeb da o fewn y safleoedd hyn oherwydd parhad staff y ddesg gymorth. Fodd bynnag, heb ddadansoddiad rheolaidd, ni cheir unrhyw sicrwydd bod y darlun hwn yn gywir.

62 Bydd gwasanaeth ystadau effeithlon sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr:

- yn darparu gwasanaethau sy'n mynd tu hwnt i ddisgwyliadau cwsmeriaid yn gyson;
- yn gwybod beth yw barn cwsmeriaid am yr is-adran.

63 Un ffordd o sicrhau bod staff yn ystyried bod gwasanaeth cwsmeriaid yn hanfodol yw defnyddio cod ymddygiad, siarter gwasanaeth neu ddogfen o'r fath. Mae'n

egluro'r ymddygiad y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ddisgwyl gan ei staff ac mae'n fodd o gysylltu polisïau sy'n bodoli eisoes â'i gilydd. Mae staff yr is-adran yn gweithredu o dan god ymddygiad y Bwrdd Iechyd sy'n rheoli sut i ofalu am gwsmeriaid. Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio arolygon bodlonrwydd defnyddwyr, felly nid oes gan yr is-adran unrhyw ddata dibynadwy i fesur barn ei chwsmeriaid am ei gwasanaeth. Ers ein gwaith maes, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datgan ei fod yn bwriadu cyflwyno arolygon bodlonrwydd defnyddwyr ddechrau 2018. Dylai hyn ei helpu i gryfhau ac i wella'r gwasanaeth.

## Mae'r rheolwyr yn cymryd camau i fynd i'r afael â materion sy’n gysylltiedig â’r gweithlu, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol gwael, salwch a chydymffurfiaeth â'r drefn arfarnu perfformiad

64 Mae canllawiau ar draws y GIG yn pwysleisio’r angen i bennu atebolrwydd a chyfrifoldebau clir ar gyfer rheolwyr ystadau, a hynny er mwyn sicrhau bod staff sy’n rheoli ystadau’n meddu ar y cymwysterau iawn.

65 Mae gan yr is-adran ystadau gynllun hyfforddi sy'n cwmpasu'r prif feysydd hyfforddi, ac mae'n cynorthwyo rheolwyr i gynllunio datblygiad staff ar sail strategol. Er enghraifft, mae llawer o'r adeiladau newydd yn fwy cymhleth na'r adeiladau hŷn, a gall fod angen i'r staff cynnal a chadw feithrin sgiliau gwahanol yn y dyfodol. Mae'r is-adran hefyd yn defnyddio cyllideb hyfforddiant benodedig i gynorthwyo'r rheolwyr i flaenoriaethu'r galw am hyfforddiant.

66 Ym mis Chwefror 2017, roedd 68% o’r staff ystadau gweithredol yn cydymffurfio â’r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Dywedodd y staff hynny y bu inni siarad â nhw mai'r rheswm am hyn yw bod staff yn gyndyn o eistedd wrth ddesg i gwblhau'r hyfforddiant. Mae'r is-adran wedi ymateb i'r perfformiad gwael hwn drwy glystyru hyfforddiant gyda'i gilydd ar ffurf cyrsiau diwrnod/deuddydd llawn lle gall aelod staff gwblhau nifer o gyrsiau mewn cyfnod byr.

67 Y gyfradd drosiant ar gyfer staff ystadau yn 2016-17 oedd 8.6%. Nid oedd yr is-adran yn gallu darparu cyfradd swyddi gwag inni. Yn ddiweddar, mae'r is-adran wedi wynebu nifer o heriau o ran denu ymgeiswyr. Mae'r rheolwyr yn ceisio datrys y broblem drwy dargedu hysbysebion mewn papurau newydd lleol. Yn ôl staff, mae’r rhain yn aml yn denu mwy o ymgeiswyr â chymwysterau gwell na hysbysebion ar-lein. Yn ogystal, mae proffil oedran staff yr is-adran yn heneiddio, gyda 33% o'r staff ystadau yn 55 oed neu’n hŷn.


68 Mae’r is-adran yn cydnabod bod heriau’n parhau o ran cynllunio olyniaeth a meithrin cydnerthedd ar gyfer y dyfodol. Am y rhesymau hyn, mae’r rheolwyr yn llunio cynllun gweithlu ar gyfer 2017-2020 a fydd yn edrych ymlaen dair blynedd i gefnogi cynllun gweithredol tair blynedd yr is-adran. Bydd angen i’r cynllun roi sylw i’r ffaith bod y gweithlu’n heneiddio a’r posibilrwydd y bydd angen gwahanol sgiliau er mwyn i’r swyddogaeth ystadau barhau i ddarparu’r ystod o wasanaethau y bydd eu hangen.

69 Mae cyfraddau salwch ac arfarnu perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gyson wael. Ym mis Chwefror 2017, roedd 6% o'r staff ystadau gweithredol wedi cwblhau eu harfarniad blynyddol. Mae hyn yn creu risg nad yw staff yr is-adran yn meddu ar y sgiliau cywir ac nad ydynt yn datblygu er eu budd nhw a'r is-adran. Mae'r staff y bu inni siarad â nhw yn priodoli'r perfformiad gwael hwn i strwythur a geiriad y templed sydd, ynghyd â'r pwysau ar staff o ran amser, yn rhwystro'r staff rhag cwblhau'r arfarniad. Mae cyfraddau salwch yr is-adran Ystadau a Chyfleusterau yn gyson waeth na tharged y Bwrdd Iechyd o 5%. Y gyfradd ar gyfer y swyddogaeth ystadau gweithredol ym mis Chwefror 2017 oedd 7.6%.

70 Mae arolwg staff diweddar y Bwrdd Iechyd, a gwblhawyd yn 2016, yn adlewyrchu'r perfformiad hwn. Er bod y canlyniadau hyn yn ymwneud â'r staff Ystadau a Chyfleusterau, yn hytrach na'r staff Ystadau yn unig, maent yn rhoi cipolwg ar farn staff yr is-adran o'i gymharu â'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd. Fel y mae Arddangosyn 6 yn ei ddangos, mae llai o staff yr is-adran Ystadau a Chyfleusterau yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod cyfleoedd iddynt gamu ymlaen yn eu swyddi.

Arddangosyn 6: canlyniadau arolwg staff, 2016

Mae'r graff isod yn dangos yr ymateb i'r cwestiwn 'A oes cyfleoedd imi gamu ymlaen yn fy swydd' gan yr is-adran Ystadau a Chyfleusterau a'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd.




Ffynhonnell: data arolwg staff y Bwrdd Iechyd, 2016

71 Mae uwch-reolwyr yn ymateb i'r heriau hyn. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno templed symlach, ac fe ddylai'r gyfradd gydymffurfio wella. Yn ogystal, mae adroddiad atebolrwydd yr is-adran yn amlinellu cynlluniau i gynyddu arfarniadau perfformiad a hyfforddiant, fel sesiynau grŵp, pecynnau canllawiau a chynllun gweithlu. Er bod yr is-adran yn dangos ymwybyddiaeth glir o'r heriau y


mae'n eu hwynebu, mae'n rhaid iddi sicrhau ei bod yn monitro'n ofalus berfformiad y dangosyddion gweithlu hyn i sicrhau ei bod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl.

72 Er gwaethaf yr ymateb cymysg i rai cwestiynau yn yr arolwg staff, pan ofynnwyd i'r staff pa mor fodlon oeddent â'u swyddi presennol, roedd canran y staff Ystadau a Chyfleusterau a ddywedodd eu bod yn 'fodlon iawn' â'u swyddi presennol yn uwch na'r ganran ar lefel y Bwrdd Iechyd cyfan, fel y dangosir yn Arddangosyn 7.

73 Mae'r graff yn cymharu ymateb yr is-adran a'r Bwrdd Iechyd i'r arolwg staff blaenorol yn 2013 â'r arolwg staff diweddaraf yn 2016. Er bod lefel yr ymateb yn debyg yn y ddau arolwg ar lefel y Bwrdd Iechyd, gwelir bod staff yr is-adran Ystadau a Chyfleusterau'n llawer mwy bodlon â'u swyddi yn 2016. Er enghraifft, dim ond 5.7 y cant o'r staff a ddywedodd eu bod yn 'fodlon iawn' â'u swyddi presennol yn 2013, o'i gymharu â 28 y cant yn 2016.

Arddangosyn 7: canlyniadau arolwg staff, 2013 a 2016

Mae'r graff isod yn dangos yr ymateb i'r cwestiwn, 'yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi â'ch swydd bresennol?' gan yr is-adran Ystadau a Chyfleusterau a'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd yn 2013 a 2016.




Ffynhonnell: data arolwg staff y Bwrdd Iechyd, 2013 a 2016

# Atodiad 1

## Perfformiad dangosfwrdd ystadau GIG Cymru

Mae'r siartiau a ganlyn yn seiliedig ar ffurflenni data ystadau blynyddol a gyflwynir gan gyrff iechyd yng Nghymru i'r system EFPMS. Cyflwynwyd y system hon gan Lywodraeth Cymru yn 2002 ac fe'i rheolir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Cyfleusterau.

Mae gwybodaeth EFPMS yn canolbwyntio ar gyflwr a pherfformiad yr ystad iechyd. Mae'r siartiau'n cwmpasu cyfnod o saith mlynedd rhwng 2009-10 a 2015-16 a phump o'r chwe dangosydd perfformiad cenedlaethol. Nid ydym wedi cynnwys y chweched, perfformiad ynni, gan ei fod tu allan i gwmpas ein gwaith.


Mae pob siart yn dangos:

- perfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- cyfartaledd Cymru gyfan.

Gellir cael hyd i ragor o wybodaeth am EFPMS yn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Cyfleusterau.

### Arddangosyn 8: sgoriau cyflwr ffisegol, y Bwrdd Iechyd a Chymru gyfan 2009-2016


Er bod sgoriau'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn uwch na sgoriau Cymru gyfan o ran cyflwr ffisegol ei ystad, mae'r graff yn dangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi dirywio ers 2014-15, a'i fod bellach yn is na sgôr gyfartalog Cymru gyfan.




Ffynhonnell: Adroddiadau Cyflwr a Pherfformiad Ystadau GIG Cymru 2009-2016

Arddangosyn 9: sgoriau cydymffurfio â gofynion statudol a rheolau diogelwch, y Bwrdd Iechyd a Chymru gyfan 2009-2016


Er bod sgoriau'r Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan rhwng 2009-11, mae'r graff isod yn dangos bod ei berfformiad wedi dirywio a'i fod bellach yn sgorio'n sylweddol is na sgôr gyfartalog Cymru gyfan o ran cydymffurfio â gofynion statudol a rheolau diogelwch.




Ffynhonnell: Adroddiadau Cyflwr a Pherfformiad Ystadau GIG Cymru 2009-2016

Arddangosyn 10: sgoriau cydymffurfio â rheolau diogelwch tân, y Bwrdd Iechyd a Chymru gyfan 2009-2016


Mae'r graff isod yn dangos bod sgoriau'r Bwrdd Iechyd yn gyson is na sgoriau Cymru gyfan o ran cydymffurfio â rheolau diogelwch tân rhwng 2009 a 2016.




Ffynhonnell: Adroddiadau Cyflwr a Pherfformiad Ystadau GIG Cymru 2009-2016

Arddangosyn 11: sgoriau addasrwydd gweithredol, y Bwrdd Iechyd a Chymru gyfan 2009-2016[8]

Mae'r graff isod yn dangos bod sgoriau'r Bwrdd Iechyd o ran addasrwydd gweithredol wedi gwella'n sylweddol rhwng 2009-10 a 2012-13 a'u bod yn uwch na sgôr Cymru gyfan ym mhob un o'r blynyddoedd canlynol.





Ffynhonnell: Adroddiadau Cyflwr a Pherfformiad Ystadau GIG Cymru 2009-2016

[8] Sylwch fod echelin y graff hwn yn cychwyn yn is.

Arddangosyn 12: sgoriau'r defnydd o le, y Bwrdd Iechyd a chyfartaledd Cymru 2009-2016

Mae'r graff isod yn dangos bod sgoriau'r Bwrdd Iechyd o ran y defnydd o le wedi bod ychydig yn is na sgoriau Cymru gyfan ers 2009-10.




Ffynhonnell: Adroddiadau Cyflwr a Pherfformiad Ystadau GIG Cymru 2009-2016

# Atodiad 2

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

Arddangosyn 13: ymateb y rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Neilltuo Aelod Annibynnol i gynrychioli materion ystadau ar lefel y Bwrdd, a hynny er mwyn:<br>• sicrhau y canolbwyntir yn ddigonol ar faterion ystadau ar lefel y Bwrdd; a<br>• darparu eiriolwr ar gyfer materion ystadau ar lefel y Bwrdd. | Cynrychiolaeth ar gyfer y gwasanaeth ystadau ar lefel y Bwrdd. | Ydy | Ydy | Byddir yn cytuno ar Aelod Annibynnol o'r Bwrdd trwy Ysgrifennydd y Bwrdd. | 31 Rhagfyr 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredu |
| A2 | Neilltuo pwyllgor i gael gwybodaeth benodol am faterion ystadau yn ffurfiol, a hynny'n rheolaidd. Dylai'r wybodaeth gynnwys y canlynol, ond ni ddylai fod yn gyfyngedig i hynny:<br>• gwybodaeth am berfformiad yr adran ystadau, gan gynnwys cwynion, pryderon a chanmoliaeth; a<br>• gwybodaeth am weithlu'r adran ystadau, gan gynnwys salwch staff, hyfforddiant gorfodol a chyfraddau'r Adolygiad o Ddatblygiad Gwerthuso Personol (PADR). | Cynhelir gwaith craffu digonol ar faterion sy'n ymwneud ag ystadau. | Ydy | Ydy | Cadarnhawyd mai'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sy'n gyfrifol am gael gwybodaeth ac adroddiadau sy'n ymwneud ag ystadau. | 31 Rhagfyr 2017 | Y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | Datblygu strategaeth ystadau sydd wedi'i chostio'n llawn, ac sy'n cefnogi cyflawniad y strategaeth glinigol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. | Gwella'r gwaith cynllunio strategol a rheoli o ran y gwasanaeth ystadau. | Ydy | Ydy | Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â'i strategaeth glinigol, sydd i'w chyhoeddi ym mis Chwefror 2018.<br>Yna, bydd yn ofynnol i gael dadansoddiad manwl o'r gofynion cyfalaf, er mwyn bodloni anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol ledled y lleoliadau cynradd ac eilaidd, iechyd meddwl, a gofal yn yr ysbyty. Yna, bydd strategaeth lawn ar gyfer yr adran ystadau yn cael ei datblygu i adlewyrchu'r manylion hyn yn ystod 2018-19. | 31 Mawrth 2019 | Y Cyfarwyddwr Strategaeth/ Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Cryfhau'r broses o fonitro'r gwaith o gyflawni targedau arbedion trwy gydol y flwyddyn. | Gwasanaeth cynaliadwy sy'n cyrraedd y targedau arbedion. | Ydy | Ydy | Mae'r adran Ystadau a Chyfleusterau wedi gweithredu chwe chynllun arbedion strategol a deg cynllun arbedion gwasanaeth benodol, sy'n cael eu hadrodd trwy Grŵp Adolygu Rhaglen y Swyddfa Rheoli Rhaglenni. Mae proses fonitro hefyd ar waith trwy'r cyfarfodydd Adrannol am Reoli Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer Ch1/2/3 a 4.<br>Bydd y broses o osod cyllideb flynyddol yn cael ei hadolygu, yn unol â dull seiliedig ar sero CIBSE, wedi'i osod yn erbyn y fethodoleg gyfredol o ddyrannu hanesyddol. | Mae adroddiadau misol eisoes yn cael eu paratoi.<br>31 Mawrth 2018 | Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A5 | Sicrhau bod rhaglen o fonitro a diweddaru'r data yn rheolaidd yn cael ei rhoi ar waith yn dilyn yr arolwg arfaethedig o gyflwr y stoc, a hynny er mwyn sicrhau cywirdeb, dilysrwydd a chyflawnder yr arolwg hwn yn barhaus dros gyfnod o dair i bum mlynedd. | Gwasanaeth a all wneud penderfyniadau gwybodus ar sail data cyfredol. | Ydy | Ydy | Mae'r fanyleb ar gyfer gwerthusiad o gyflwr y chwe agwedd yn cynnwys gweithredu Micad, sef system feddalwedd rheoli asedau sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd mewn Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. | 31 Rhagfyr 2018 | Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau |
| A6 | Gwella ffocws cwsmeriaid ac ymgysylltiad clinigol trwy wneud gwell defnydd o fforwm amlddisgyblaethol ar gyfer trafod materion ystadau, er enghraifft timau ardaloedd cymunedol a chyfarfodydd â Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru. | Mae gwasanaethau ystadau a chlinigwyr yn deall eu hanghenion, eu rolau a'u safbwyntiau ei gilydd. | Nac ydy | Ydy | Ar hyn o bryd, mae'r adran Ystadau a Chyfleusterau yn mynychu tri HMT acíwt a thri thîm Ardal leol, ac mae wedi rhoi cyflwyniad yn Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol BIPBC.<br>Mae cyflwyniadau hefyd wedi cael eu rhoi i'r CHC lleol.<br>Mae'r adran Ystadau a Chyfleusterau hefyd yn mynychu'r Cwtshys Diogelwch (Safety Huddles) seiliedig ar ofal Acíwt a sefydlwyd yn ddiweddar. | Wedi'i sefydlu | Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A7 | Cryfhau trefniadau rheoli perfformiad yr adran ystadau trwy ddatblygu a monitro cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol (KPI). | Mae gwybodaeth fwy cynhwysfawr am reoli perfformiad yn nodi meysydd i'w gwella, ac yn cynyddu ymwybyddiaeth yr uwch-reolwyr o faterion ystadau. | Ydy | Ydy | Ar hyn o bryd, mae'r adran Ystadau a Chyfleusterau yn adrodd yn flynyddol trwy EFPMS Cymru Gyfan – mae hyn yn cynnwys y Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau a swyddogaethau'r Adran Ystadau a Chyfleusterau.<br><br>Mae'r Adran Ystadau Gweithredol yn datblygu adroddiad chwarterol ar berfformiad ar gyfer gweithgarwch atgyweirio a chynnal a chadw, a hynny trwy'r Adroddiadau chwarterol ar Berfformiad ac Atebolrwydd. | 31 Mawrth 2018 | Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru